

Cynhaliwyd cyfarfod o bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy fideo/dros y ffôn nos Fawrth, 2 Mawrth 2021, am 8 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo: Sarah Walters (Cadeirydd), Janine Roberts, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Eifion Roberts o 8:30 p.m. Dros y ffôn: Marged Bowen a John Williams. Ymddiheuriadau: Pauline George, Steve Haines, Rhys Williams.

Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Byddai'r cyngor yn trefnu i'r Adran Adeiladwaith archwilio'r geuffos wrth Yr Hen Efail am ddiffygion neu arwyddion ei bod wedi dymchwel. Byddai'n cynnal gwaith adfer dros dro ym Mhont Llethr nes y gellid gwneud gwaith parhaol pan fyddai adnoddau ar gael.

Byddai'r llinellau gwyn rhwng y fynedfa i Fferm Bryngwyn a Fferm Abernaint yn cael eu hailbeintio. Roedd y contractwr sy'n gosod marciau ar y ffyrdd wedi cael cyfarwyddyd i ailbeintio'r marciau yn y lleoliad hwn, a byddai'n gwneud hyn pan fyddai'r tywydd ac amodau'r ffordd yn caniatáu hynny. Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Y balans ar y gyfriflen ar 26 Chwefror 2021 oedd £6,744.35

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc £168.88; Cyllid a Thollau ei Mawrhydi £42.20; Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd (Tachwedd a Rhagfyr) £96.55. Cytunwyd i aros gyda Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd am y tro.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a thrwy e-bost.

Cafwyd llythyr o ddiolch gan Ambiwllans Awyr Cymru am y rhodd o £300.00.

Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru. Trafodwyd yr adolygiad o'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

Yr Ombwdsmon. Ymgynghoriad ar y canllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cynghorau Sir a Chymuned/Thref. Roedd neges e-bost wedi cael ei hanfon ymlaen at yr holl Cynghorwyr. Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 21 Mawrth 2021.

Trafodwyd llythyr gan Gofal mewn Galar Cruse yn gofyn am gymorth.

Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020-21. Roedd llythyr wedi dod i law yn gofyn a fyddai'r Cyngor mor garedig ag ystyried noddï leuan Wyn Davies, Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer ei daith gerdded i godi arian i'w ddwy elusen – Prostate Cancer UK ac Eglwys San Pedr, Llanybydder. Cytunwyd ein bod cyfrannu £100.00.

Roedd y cylchgrawn *Clerks & Councils Direct* wedi dod i law.

Treuliau'r Clerc. Roedd y manylion wedi cael eu hanfon at bob Cynghorydd trwy e-bost. Cytunwyd i dalu £50.70.

Cynllunio.

Pwnc: PI/00073 – Ail-ymgyngori ar gais cynllunio. Cynnig am gromenni pridd cynaliadwy gydag ystafell amlbwrpas ategol ac ardal storio beiciau – Rhyd-ar-Wen, Cwm-du. Ail-ymgyngoriad: Cynlluniau Diwygiedig/Gwybodaeth Ychwanegol Wedi Dod i Law. Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph Davies yn canfod rhagor o wybodaeth ac yn adrodd i'r Clerc, a fyddai'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr. Gan y byddai'r ail-ymgyngoriad yn dod i ben ar 23 Mawrth 2021 dylai'r Cynghorwyr ymateb trwy e-bost pe byddai ganddynt unrhyw sylwadau.

Unrhyw Faterion Eraill:

Trafodwyd y mater o gynnydd yn y sbwriel ar y ffyrdd. Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph Davies yn gwneud ymholiadau ynghylch casglu sbwriel.

Dywedwyd bod ceuffos rhwng Fferm Maendy a Fferm Penybanc wedi parhau i gael ei blocio a gorlifo.

Cytunwyd y byddid yn rhoi gwybod am hyn i Gyngor Sir Caerfyrddin

Nid oedd yna unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.15 p.m. Byddai'r cyfarfod o bell nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth 6 Ebrill 2021 am 8 p.m.